

## Cofnodion cyfarfod 4/3/21 (Zoom)

**Presennol:** Y Maer Eifion Roberts, Dilys Evans, Elin Hedd, Alun Price, Carol Rowlands, John Caradog Williams, Cynghorydd Dilwyn Morgan (Cyngor Gwynedd), Lis Puw (Clerc).

1. **Wrth groesawi** bawb i'r cyfarfod, mynegodd y Maer gydymdeimlad gyda Mrs Ivora Jones a'r teulu yn eu profedigaeth ddiweddar. Derbyniwyd ymddiheuriadau Rhys Evans, Sharon Evans a Tony Parry.
2. **Buddiant:** Nid oedd datganiadau o fuddiant .
3. **Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod Chwefror 4ydd, 2021.
4. **Materion y Clerc:**
  - i. Ymddiswyddiadau o'r Cyngor: Derbyniwyd gyda gofid ymddiswyddiad Sue Davies a diolchwyd iddi hi am ei gwasanaeth gwerthfawr i'r Cyngor a'r dref. Mae dau aelod arall yn colli eu seddi oherwydd iddynt fethu a bod yn bresennol am 6 mis; rhaid dilyn y drefn a osodwyd, er y gwyddys bod amgylchiadau teuluol wedi eu rhwystro rhag ymuno yn y cyfarfodydd. Mae Cyngor Gwynedd wedi cael gwybod am yr angen i lenwi'r seddi.
  - ii. Ciosg y Stryd Fawr: Mae David ac Errol Evans wedi cynnig i gyfrannu plac i nodi rhodd y Seiri Rhyddion o di-ffib yng nghiosg Y Bala, a diolchwyd yn fawr iawn iddynt am eu haelioni. Cytunwyd i gynnwys "Cyngor Tref Y Bala" ac efallai'r arfbais ar y plac. Bydd y Maer a'r Brodyr Evans yn trafod lle i osod y plac ar ôl i'r offer fynd i'w lle.
  - iii. Baw cwn ar hyd llwybr yr afon: bydd y Cynghorydd Dilwyn Morgan yn tynnu sylw'r Swyddog Gorfodaeth.
  - iv. Golau lamp yn Heol Tegid: mae'r gwaith o drwsio wedi ei wneud.
  - v. Arwyddion angen eu glanhau: mae'r mater wedi ei gyfeirio at sylw Cyngor Gwynedd.
5. **Cyngor Gwynedd:** Derbyniwyd adroddiad Dilwyn Morgan, Cynghorydd Gwynedd, sydd wedi bod yn delio efo materion lleol megis, mat y lle chwarae ar y Grin, gwaith dwr a charthffosiaeth yn Yr Hafan, dŵr wrth Y Cyfnod. Nid yw llwybrau plant at yr ysgol wedi ei asesu hyd yn hyn gan nad oes plant yn yr ysgol. Soniodd am dreth Cyngor Gwynedd a premiwm ar ail gartrefi yng Ngwynedd. Bydd mwy o staff yn ymwneud gyda gorfodaeth (baw cwn, tipio slei bach). Cytunodd ef a Carol Rowlands i gasglu cerrig a addurniwyd gan y plant, ac ystyried eto beth i'w wneud gyda nhw; efallai bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn gallu eu cynnwys yn eu cynlluniau. Nid oes sôn pellach am dorri coed y Stryd Fawr, ond efallai y byddant yn cael eu tocio. NMWTRA sydd yng ngofal y ffordd hon.
6. **Cyfleusterau Cyhoeddus ac ardoll parcio:** Cytunwyd i ymuno yn y cynllun ar ôl derbyn gwybodaeth am yr incwm tebygol. Codwyd pryder a fyddai disgwyl i'r Cyngor drwsio pe byddai fandaliaeth.

Gohiriwyd ystyried y taliad 2020-21 am y toiledau tan y cyfarfod nesaf oherwydd nad yw'r peiriant golchi dwylo byth wedi ei drwsio.

7. **Cyfoeth Naturiol Cymru:** Derbyniwyd neges trwy law Tony Parry am gyfarfod safle am 10.00am ar 9/3/21. Mae croeso i Gynghorwyr ymuno. Bydd aelod o Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymuno yng nghyfarfod mis Ebrill.

8. **Un Llais Cymru:** Dim i'w adrodd.

9. **Is-bwyllgorau:** Dim adroddiadau i'w trafod.

10. **Materion Cynllunio:**

- i. **Parc Cenedlaethol Eryri:** NP5/53/586 Loch Café, Heol Pensarn, Y Bala LL23 7SR  
"Newid defnydd stabl a phadog i giosg yn gwerthu diodydd a hufen ia gyda man eistedd allanol o'i flaen mewn perthynas â 'Loch Café.'" Cytunwyd i'r newid defnydd ar gyfer gwerthu diod ysgafn - **ond nid i gynnwys gwerthu alcohol.**
- ii. **Cyngor Gwynedd:** Loch Cafe - cais trwydded i werthu alcohol rhwng 11.00am a 9.30pm 7 diwrnod yr wythnos. Cytunwyd i WRTHWYNEBU (*ac i wrthwynebu ceisiadau posib eraill yn y dyfodol ar lan y llyn*) oherwydd - yn fras -
  - a. Ni ymgynghorwyd gyda chymdogion a allai cael eu heffeithio o ran sŵn ac ymddygiad gwrth-gymdeithasol; gallai fod effaith andwyol ar fusnesau cyfagos.
  - b. Parcio yn eiddo i Gyngor Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri yn unig. Toiledau'r Parc yn cau am 7.00pm. Mae angen gwarchod y llyn a'r blaendraeth rhag sbwriel a llygredd, hyn yn cyfrannu at lwyth gwaith y Gwardeiniaid.
  - c. Mwynderau, Cydweddoldeb a Llesiant plant, trigolion ac ymwelwyr.
  - d. Diogelwch: gall alcohol fod yn risg i nofwyr y llyn; mae mwyafrif yr ymwelwyr yn mynd a dod mewn cerbydau; mae Loch Cafe yn fan ymgasglu i feiciau modur ac mae nifer uchel o ddamweiniau yn yr ardal yn barod, heb gynnwys yr elfen alcohol.
  - e. Byddai rheoli diogelwch, parcio, ymddygiad a sbwriel yn anodd gan fod yr ardal o gwmpas Loch Cafe yn eang ac yn cynnig risgau amwrywiol.

11. **Materion Cyllid:**

- i. Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ariannol ddiweddaraf.
- ii. Cytunwyd i dalu Cyflog (mis Chwefror), ac anfoneb Cyngor Gwynedd am oleuo'r Stryd Fawr (£1,098.90)
- iii. Ceisiadau am arian 2020-21: Cytunwyd i gyfrannu £300 i Glybiau Ffermwyr leuanc (Ffederasiwn Meirionnydd); £300 i'r Gymdeithas Genweirio; £1000 i Gymdeithas Chwaraeon ac Adloniant Y Bala a Phenllyn. Awgrymwyd bod y Gymdeithas

Chwaraeon yn cynnwys maes chwarae Heol y Castell yn y gwariant ar gynnal a chadw ar gyfer dychweliad y plant ar ôl y cyfnod clo; byddai'r Cyngor yn dymuno cael cais mwy penodol yn y dyfodol.

- iv. Oherwydd bod Zoom yn haws i nifer, cytunwyd i ofyn am rannu trwydded gyda Chyngor Cymuned Llanuwchllyn (£60 y flwyddyn i'r Bala a Llanuwchllyn i dalu £60 + TAW).

**12. Gohebiaeth:** Nodwyd derbyn

- i. Llywodraeth Cymru: Ymgynghoriad ar Luchio Slei Bach
- ii. Llywodraeth Cymru: Cymru'r Dyfodol
- iii. Llywodraeth Cymru: Ymgynghoriad ar y Cod Ymddygiad
- iv. Llywodraeth Cymru: Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol - Adolygu Fframwaith Taliadau Cyngorau Cymuned a Chyngorau Tref
- v. ADRA: cais am enw ar gyfer y datblygiad newydd ar ystâd Cysgod y Coleg. Cytunwyd i anfon at Adra i ddweud nad oes enw yn cael ei gynnig oherwydd bod y Cyngor wedi gwrthwynebu'r datblygiad yn y lle cyntaf. Mae'n siomedig hefyd nad oes lle chwarae i'r plant fel yr addawyd.
- vi. Ymholiad Meiri dros Heddwch – cafwyd gwybodaeth fod y Maer wedi ymuno gyda hyn yn 2005 ar achlysur cofio'r bomio atomig yn Siapan yn 1945
- vii. Parc Cenedlaethol Eryri: mae ymgynghoriad yn digwydd ar "CYNLLUNIO A'R IAITH GYMRAEG" sy'n manylu ar y Cynllun Datblygu Lleol. Mae'r drafft ar gael ar wefan y Parc o dan *planning/planning policy*

**13. Partneriaeth Penllyn:** Derbyniwyd adroddiad byr o dan yr amgylchiadau.

14. **Asedau'r Cyngor:** Adroddodd Carol Rowlands eu bod mewn cyflwr boddhaol. Diolchwyd i J C Williams am osod y baneri.

**15. Materion lleol y Cyngorwyr Tref:**

Ceir yn parcio ar y palmant: Cytunwyd i dynnu sylw Cyngor Gwynedd trwy ein Cyngorydd Sir.

Lleihau llefydd parcio ar y stryd: Cytunwyd i holi am drwydded pafin Cyngor Gwynedd gan fod nifer o drigolion yn holi pam fod rhai yn cymryd llefydd parcio i'w busnes, gan andwyo busnesau eraill. Roedd pryder hefyd am ddiogelwch. Cytunwyd i ddatgan nad yw Cyngor Tref Y Bala yn fodlon fod y llefydd parcio yn cael eu cymryd gan fusnesau.

Cytunwyd i holi'r gwardeiniaid am y biniau llawn wrth Lyn Tegid.

16. **Dyddiad a lleoliad** y cyfarfod nesaf: 1/4/21 am 7.00 pm (trwy gyfrwng Zoom)

*Amser gorffen: 8.50pm*